


Adran Addysg Sir Ddinbych

Strategaeth Gwrth-Fwlio

“Parchu Eraill”

Strategaeth i helpu ysgolion a lleoliadau eraill i fynd i'r afael â bwlio ac i hyrwyddo parch.



	Ionawr 2014
Datblygwyd y Polisi gan:	Michael Duke (Prif Seicolegydd Addysg)
Dyddiad Adolygu gan yr Awdurdod Lleol	Medi 2018 Dr Melanie Ackers (Seicolegydd Addysg) Audrey Ostanek (Prif Seicolegydd Addysgol)
Dyddiad Adolygu Blynyddol gan yr ALL	Medi 2019

Cynnwys

Cyflwyniad

Rhagair 3

Gwrth-Fwlio yn Sir Ddinbych

Beth yw bwlio? 4

Beth yw effeithiau bwlio? 4

Hyrwyddo partneriaeth gyda'r awdurdod lleol

Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol 7

Gweithdrefnau adrodd cyfredol 9

Ymgynghoriad o'r strategaeth 10

Monitro'r strategaeth 10

Gellir dod o hyd i ddeunyddiau cysylltiedig ar www.denbighshireschools.com
(Adnoddau Gwrth-fwlio).

Cyflwyniad

Rhagair

Mae Sir Ddinbych yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial, gan gynnwys yr hawl i ddysgu mewn amgylchedd diogel ac amddiffynnol yn rhydd o hiliaeth, bwlio neu wahaniaethu o unrhyw fath. Mae'r gwaith rydym yn ei gynnig drwy'r ddogfen hon yn cyd-fynd â chanllawiau Gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru, "Parchu Eraill" (www.wales.gov.uk/educationandskills) a Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran deall pwysigrwydd nodi a diogelu'r unigolion hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig cymaint â'r rhai sydd ddim.

Mae ymchwil yn dangos yn glir mai lles emosiynol a chymdeithasol yw sail cyrhaeddiad academaidd da yn ogystal â datblygu sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen ar bob aelod o'r gymuned i ryngweithio a ffynnu yn llwyddiannus. Fel y cyfryw, mae'r effeithiau niweidiol o fwlio yn rhai tymor hir a phellgyrhaeddol, gan effeithio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol yn ogystal â chyrhaeddiad addysgol.

Gwyddwn fod bwlio yn digwydd, ond mae ceisio atal bwlio yn her enfawr. Dyna pam yr ydym angen gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn modd rhagweithiol. Pwrpas y strategaeth hon yw hyrwyddo neges gyson ar draws Sir Ddinbych bod bwlio'n cael ei gymryd o ddifrif ac yn cael ei reoli drwy gyfuniad o fesurau atal ac ymyrryd. Mae hefyd yn bwriadu amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol, ysgolion a chyrrff llywodraethu wrth fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion drwy ddatblygu a gweithredu strategaethau gwrth-fwlio effeithiol a gwaith partneriaeth.

Prif amcanion y strategaeth hon yw:

- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a'r awdurdod
- Sefydlu mesurau cofnodi effeithiol o achosion o fwlio ar draws ysgolion.
- Sefydlu targedau i gynyddu adrodd am ddigwyddiadau o fwlio mewn ysgolion a bod goramser yn lleihau pa mor aml y digwyddir yr achosion.
- Ymyrryd yn effeithiol pan fydd bwlio'n digwydd drwy nodi tueddiadau a thargedu adnoddau.

Mae'r ddogfen hon wedi'i hysbysu gan y dogfennau allweddol canlynol ac argymhellir eu darllen ar y cyd ag unrhyw ddatblygiad y dymunwch ei wneud i bolisi gwrth-fwlio.

- ❖ **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- ❖ Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru 050/2011 **Parchu eraill: Trosolwg Gwrth-fwlio.**
- ❖ Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru 051/2011 **Parchu eraill: Bwlio sy'n ymwneud â hil, crefydd a diwylliant.**
- ❖ Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru 052/2011 **Parchu eraill: Bwlio ynghylch anghenion addysgol arbennig ac anabledau.**
- ❖ Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru 055/2011 **Parchu eraill: Bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig.**
- ❖ Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru 056/2011 **Parchu eraill: Bwlio homoffobig.**
- ❖ Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru 057/2011 **Parchu eraill: Seiber-fwlio**
- ❖ **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion 2008.**

Gwrth-Fwlio yn Sir Ddinbych

Beth yw bwlio?

Mae sawl diffiniad o fwlio sydd gyda thri prif beth yn gyffredin:

- Mae'n ymddygiad sy'n fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol).
- Mae'n digwydd dro ar ôl tro, yn aml dros gyfnod o amser. Nid yw'n ddigwyddiad "unwaith ac am byth".
- Mae'n anodd i'r rhai sy'n cael eu bwlio i amddiffyn eu hunain.

Yn aml mae bwlio yn canolbwyntio ar wahaniaethau unigolyn neu unrhyw beth sy'n cael ei awgrymu i fod yn wahanol i'r mwyafrif. Gall agweddau o siâp y corff neu edrychiad, a ffyrdd o fyw diwylliannol neu ethnig i gyd fod yn ganolbwynt i fwlio. Gall hefyd ganolbwyntio ar hil, rhyw, crefydd neu genedligrwydd, neu ddeillio o anwybodaeth y rhieni, rhagfarn neu raniadau cymunedol. Yn hyn o beth mae bwlio yn tanseilio gwaith yr ysgol o ran hyrwyddo parch, cyfle cyfartal ac addysgu egwyddorion moesol cymdeithasol a dderbynnir yn gyffredinol.

Gall llawer o ymddygiadau yng nghyd-destun yr ysgol a elwir yn fwlio, gael eu diffinio gan y gyfraith fel ymddygiad bygythiol, difrod troseddol, lladrad, ymosodiad, aflonyddu rhywiol, hiliol neu homoffobaidd. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc a rhieni / gofalwyr yr hawl i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath i'r heddlu. Ni ddiffinnir "Bwlio" fel trosedd. Pan fydd achos o "fwlio" yn digwydd ac yn cael ei adrodd i'r heddlu, yna bydd yr heddlu yn ail-fframio'r digwyddiad mewn diffiniad bod "trosedd" yn bodoli ac yn cael ei ddiffinio gan statud.

Efallai na fydd bwlio yn cael ei gyfyngu i achosion rhwng plant a phobl ifanc. Gall cyhuddiadau o fwlio rhwng, a thuag at, oedolion gael eu gwneud hefyd. Dylid cydnabod digwyddiadau posibl o'r fath mewn polisïau ysgol. Gall athrawon ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fod yn agored i fwlio. Maent angen cymryd camau i ddiogelu eu hunain, er enghraifft, trwy gyfyngu mynediad yn ofalus at eu gwybodaeth ac offer personol.

Beth yw effeithiau bwlio?

Mae llawer o dystiolaeth sy'n amlygu effeithiau bwlio ar draws perfformiad academaidd, iechyd meddwl, problemau lles a iechyd corfforol.

Mae adroddiad Childline yn adrodd bod bwlio yn un o'r pum pryder uchaf sy'n cael ei adrodd wrthynt bob blwyddyn ers 1989, gyda'r gwasanaeth yn darparu 25,740 o sesiynau cwnsela i bobl ifanc yn ystod blwyddyn 2015/16 ym maes bwlio. Mae Childline hefyd wedi cydnabod bod y byd o fwlio yn newid gydag achosion o bobl ifanc yn cysylltu â nhw am fwlio ar-lein wedi codi 88% dros y pum mlynedd diwethaf. *Ffynhonnell: Adroddiad Childline 'What children are telling us about bullying, Childline bullying Report 2015/16'.*

Pwy sy'n rhan o'r weithred o fwlio?

Y person sy'n arddangos ymddygiad bwlio – y bwli

Mae bwli yn dueddol o gyflawni'r ymddygiadau canlynol.

- Ceisio arddangos grym mewn rhyw fath – maint, poblogrwydd, gallu athletig, gwybodaeth ac ati.

- Diffyg empathi.
- Beio eraill er mwyn esgusodi ymddygiad eu hunain.
- Methu derbyn cyfrifoldeb.
- Crefu am sylw.
- Yn fyrbwyll, pen-boeth ac eisiau dominyddu.
- Teimlo'n rhwystredig yn hawdd
- Cael hi'n anodd dilyn rheolau.

Pam fod bwllis yn gwneud hyn?

- Mae'n bwysig penderfynu a oes ganddynt broblemau eu hunain, ac felly mae'n bosibl eu bod yn teimlo'n drist neu'n ddiog neu'n teimlo nad ydynt yn ffitio i mewn; efallai bod ganddynt broblemau yn y cartref?
- Efallai eu bod yn dioddef o fwlio eu hunain, efallai gan rywun yn nheulu eu hunain.
- Mae ganddynt ofn i rywun bigo arnynt felly'n achub y blaen drwy wneud hynny eu hunain.
- Maent eisiau brolio ac ymddangos yn "galed".

Mae ymchwil hefyd wedi nodi y gall ffactorau magu plant gyfrannu at fwlio a pharhau'r ymddygiad o fwlio. Ffactorau risg teuluol a nodwyd yn cynnwys dull anghyson o ddisgyblaeth, rhianta rhy-oddefol, diffyg cariad neu gyfranogiad gan rieni / gofalwyr, neu gosbau disgyblu llym.

Os yw plentyn yn cael ei adael i arddangos ymddygiad bwlio heb ymyrraeth, gall y rhain gynyddu i fathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fwy ymosodol. Mae'n bwysig felly, tra gall ymyriadau gynnwys sancsiynau disgyblu yn ogystal â gwneud y bwli yn gyfrifol am eu hymddygiad, eu bod hefyd yn cael cynnig cymorth eu hunain. Nid yw atebion fel 'dim goddefgarwch' a gwahardd myfyrwyr sy'n bwlio ddim yn debygol o newid eu hymddygiad yn y dyfodol ac mewn gwirionedd yn gwaethygu'r sefyllfa ar eu cyfer a'r dioddefwr. Felly, mae'n bwysig rhoi cyfleoedd i'r unigolyn i ddechrau deall y niwed y maent wedi ei achosi ac i ddechrau dysgu ffyrdd mwy priodol i reoli eu teimladau neu emosiynau yn y dyfodol.

Y person sy'n profi'r bwlio

Gall unrhyw blentyn gael ei fwlio, ond mae rhai ffactorau a all wneud plentyn yn fwy tebygol o gael eu bwlio. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw unrhyw un o'r nodweddion hyn yn esgusodi bwlio:

- | | |
|-----------------------------------------|-----------------------------------------------------------|
| • Yn brin o ffrindiau agos yn yr ysgol. | • Yn perthyn i grŵp hil neu ethnig gwahanol i'r mwyafrif. |
| • Yn swil. | • Ymlyniad crefyddol. |
| • Amgylchedd teuluol sy'n orwarchodol. | • Siarad iaith wahanol neu gan |

- Ymddwyn yn amhriodol, ymyrryd neu bod yn 'niwsans'.
- Bod â thalent hen ffasiwn
- Bod yn wahanol mewn rhyw ffordd amlwg - fel atal dweud.
- Bod ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd.
- Nam corfforol, meddyliol neu synhwyraidd.
- Creithiau neu anffurfiad ar y wyneb neu'r corff.
- Salwch meddwl.
- Bod â chyflwr meddygol hirdymor fel diabetes neu asthma.
- Nodweddion corfforol, megis bod yn 'rhy denau' neu ordewdra. Gwahanol gyfnodau o aeddfedrwydd yn golygu y gall unigolion fod yn ddatblygwyr cynnar neu hwyr. Bod yn wahanol i arfer canfyddedig y grŵp cyfoedion yn golygu eich bod yn cael eich gweld fel targed ar gyfer bwlio.
- ddefnyddio acen wahanol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion.
- Meddu ar ategolion drud fel ffonau symudol, gemau cyfrifiadurol, dillad drud iawn (neu i'r gwrthwyneb a pheidio â meddu'r rhain).
- Gwybodaeth neu ganfyddiad bod gan blentyn gyfeiriadedd rhywiol sydd yn wahanol i'r mwyafrif.
- Bod â nodweddion corfforol neu nodweddion nad ydynt yn cydymffurfio â ffurfiau adnabyddadwy traddodiadol o wrywod neu fenyweidd-dra.
- Dod o ddsbarth cymdeithasol gwahanol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion.
- Tystiolaeth o dlodi.
- Dod o deulu gyda strwythurau teuluol anuniongred neu 'wahanol'.
- Plant sy'n derbyn gofal neu ofalwyr ifanc

Mae plant sy'n cael eu bwlio yn dueddol o gael trafferthion creu a chynnal cysylltiadau â chyfoedion sy'n gallu cyfyngu ar eu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol effeithiol. Mae ymchwil yn dangos pan fo unigolyn yn cael ei fwlio/bwlio dros gyfnod o amser eu bod yn tueddu i ddatblygu ymddygiad lle maent yn 'beio eu hunain', sy'n ymddygiad ymdopi lle maent yn beio eu hunain am y sefyllfa y maent ynddi, gan eu harwain at deimlo'n ddiymadferth yn hytrach na mabwysiadu dull iach o ddatrys problemau. Fel y cyfryw, mae rhai o'r ymyriadau mwyaf llwyddiannus yn canolbwyntio ar y lefelau cynyddol o wytnwch ymhlith unigolion sy'n dioddef bwlio, fel sgiliau cymdeithasol neu hyfforddiant pendantrwydd, sy'n dangos i wella eu hunan-barch, ymdeimlad o gymhwysedd a galluoedd i ymdopi'n effeithiol â ymddygiadau o fwlio.

Y person sy'n gweld neu'n gwybod am y bwlio - "effaith sefyll o gwmpas"

Person sy'n sefyll o gwmpas yw '*person sydd ddim yn cymryd rhan weithgar mewn sefyllfa lle mae rhywun arall angen cymorth*' (Clarkson 1996, t6) ac yn y modd hwn yn cael ei ddeall i fod yn sylwedydd goddefol, rhywun sy'n gwylio rhywbeth yn digwydd, ond yn aros ar y cyrion ac yn dewis peidio ymyrryd neu gynorthwyo, hyd yn oed os bydd rhywun ei angen. Tydi bod yn "wylwr" ddim yn oddefol; ac mae tystion i fwlio yn chwarae rolau gwahanol iawn, rhai yn fwy gweithgar nag eraill, ac mae'r "gwylwyr" hyn yn cyfrannu'n sylweddol i'r hyn sy'n digwydd. Mae'r "person sy'n sefyll o gwmpas" yn cydoddef ac yn grymuso'r bwli drwy beidio ag ymyrryd. Mae 'gwneud dim' yn cael effaith wirioneddol ar ddigwyddiadau a gall achosi niwed. Yn y Ffindir, cydnabuwyd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn dosbarth yn unigolion sy'n sefyll o gwmpas mewn sefyllfaoedd o fwlio, yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ac weithiau yn cymryd rhan (Salmivalli 1996, 1999). Gofynnodd ymchwilyr y cwestiwn '*Beth mae plant eraill yn ei wneud tra bod y bwli yn aflonyddu dioddefwr?*' a gwelwyd hefyd yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu bwlio a'r rhai sy'n bwlio, fel arfer mae yna dystion eraill sydd, trwy fabwysiadu rolau penodol, yn dylanwadu ac yn effeithio ar yr hyn sy'n digwydd. Nodwyd y '*rolau sy'n cymryd rhan*' canlynol:

- 'Cynorthwyyr' sy'n ymuno i mewn a chynorthwyo'r bwli;
- 'Atgyfnerthwyr' sydd ddim yn ymosod ar y dioddefwr yn uniongyrchol, ond yn rhoi adborth cadarnhaol i'r bwli, gan ddarparu cynulleidfa drwy chwerthin a gwneud ystumiau eraill sy'n annog y bwli.
- 'Rhywun o'r tu allan' sy'n aros yn bell i ffwrdd, peidio â chymryd ochrau gydag unrhyw un neu ddod yn rhan, neu'n amharod i weithredu yn gymdeithasol.'

Gall unigolion sy'n sefyll o gwmpas leihau erledigaeth yn llwyddiannus, drwy leihau atgyfnerthu cymdeithasol ar gyfer gweithredoedd y bwli drwy ddefnyddio nifer o strategaethau fel peidio ag ymuno i mewn, lleisio anghymeradwyaeth, adrodd am ddigwyddiadau, ac ati. Yn ein hysgolion byddai o gymorth pe gallem rymuso amharoddrwydd "yr unigolyn sy'n sefyll o gwmpas" i adrodd am ddigwyddiadau y maent yn teimlo na allant ymyrryd yn uniongyrchol i fynd i'r afael a'r achos eu hunain.

Hyrwyddo partneriaeth gyda'r awdurdod lleol

Elfen allweddol o unrhyw strategaeth gwrth-fwlio llwyddiannus yw mecanwaith sy'n caniatáu i ysgolion ac unigolion sydd â chyfrifoldeb am wrth-fwlio i weithio'n effeithiol ac mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol. Cefnogir hyn drwy ddisgwyl i ysgolion gadw cofnodion cywir o achosion o fwlio ac i ddychwelyd y data hwn at yr awdurdod yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn caniatáu i adnoddau gael eu defnyddio'n fwy effeithiol a hefyd yn ateb dyletswyddau statudol ysgolion o dan Ddeddf Addysg 2002 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ogystal, bydd y strategaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o flaenoriaethau allweddol lleol Cyngor Sir Ddinbych, gan gynnwys Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych a Chynllun Lles Corfforaethol.

Fel awdurdod rydym yn gallu cynnig nifer o asiantaethau cymorth mewn perthynas â gwaith gwrth-fwlio. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad
- Gwasanaeth Seicoleg Addysg
- Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg
- Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgol.
- Gwasanaeth Ieuencid

Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol

Rôl yr ysgol a'r corff llywodraethu neu Uwch Dîm Arwain.

Mae ysgolion mewn sefyllfa ddelfrydol i chwarae rôl allweddol wrth fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â bwlio. Drwy herio bwlio yn effeithiol, gall ysgolion greu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc, gan eu helpu i wireddu eu potensial a gwella eu hiechyd a'u lles emosiynol. Mae hefyd yn dangos bod yr ysgol yn gofalu ac yn ei gwneud yn glir i fwlio bod ymddygiad o'r fath yn annerbyniol ac yn cael ei herio.

Polisiau gwrth-fwlio

Mae'n rhaid i bob ysgol, yn ôl y gyfraith, gael polisi i atal pob math o fwlio ymysg disgyblion. Bydd angen i benaethiaid a chyrrff llywodraethu i fodloni eu hunain bod eu polisiau yn cydymffurfio â nifer o ddarnau allweddol o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- Deddf Hawliau Dynol 1998.
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1991).
- Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000 - *sy'n gofyn i ysgolion i lunio polisi cydraddoldeb hiliol a sicrhau nad yw polisiâu yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau hiliol. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar ysgolion i 'hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da'.*
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd Rhan 4 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) - *Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyfrifol ysgol i wneud addasiadau rhesymol i bolisiâu, gweithdrefnau ac arferion sy'n rhoi disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.*
- *Deddf Cydraddoldeb 2010* - gan gyfeirio'n benodol at fwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig disgybl (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) o fewn y polisi.

Dylai'r polisi gwrth-fwlio hefyd gysylltu'n glir â pholisiâu eraill yr ysgol, er enghraifft:

- Polisi Ymddygiad - mewn rhai achosion efallai y bydd y polisi gwrth-fwlio yn is-adran o'r ddogfen hon. Dylai wneud yn glir sut y caiff achosion o fwlio eu rheoli a'u trin i bawb dan sylw.
- Polisi Amddiffyn Plant - yn enwedig mewn achosion difrifol o fwlio, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol neu ymddygiad ymosodol.
- Polisi Cwynion.
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol - mae'n ofyniad cyfreithiol i bob ysgol i gyhoeddi'r cynllun hwn.

Dylai'r polisi gwrth-fwlio gael ei lunio mewn ymgynghoriad â'r gymuned ysgol gyfan; disgyblion, staff addysgu, staff nad ydynt yn addysgu, llywodraethwyr a rhieni / gofawyr. Dylai polisi a gytunwyd arno fod yn fyr, yn gryno ac wedi'i ysgrifennu mewn iaith sy'n ddealladwy i bawb. Mae'n arfer da i gynhyrchu fersiwn o'r polisi sy'n addas i blant a phobl ifanc.

Dylai gynnwys:

- Cydnabyddiaeth bod bwlio'n cwmpasu'r tair elfen ganlynol
 - Mae'n ymddygiad sy'n fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol).
 - Mae'n digwydd dro ar ôl tro, yn aml dros gyfnod o amser. Nid yw'n ddigwyddiad "unwaith ac am byth".
 - Mae'n anodd i'r rhai sy'n cael eu bwlio i amddiffyn eu hunain.
 Gall hyn fod trwy gynnwys diffiniad o fwlio os ydych wedi cytuno ar un;
- Nodau ac amcanion;
- Mesurau ataliol, technegau ymyrryd, cymorth cwricwlwm, polisi hyfforddi (yn dibynnu ar adnoddau) ar gyfer yr ysgol gyfan;
- Gweithdrefnau i'w dilyn - pwy i ddweud wrthynt, sut i gofnodi bwlio (yn cynnwys o bosibl system i ddisgyblion i roi gwybod yn gyfrinachol) a'r ffordd yr ymdrinnir â'r achos.

Sut i ddatblygu ac adolygu eich "Polisi Gwrth-fwlio" presennol

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar yr offeryn hunanasesu polisi gwrth-fwlio ysgolion a gafodd ei beilota gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd 2007/08, ond mae hefyd yn defnyddio'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y "**Cynghrair Gwrth-fwlio**" ar yr hyn sy'n gwneud polisi gwrth-fwlio llwyddiannus. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r polisi gael ei enwi yn bolisi "Gwrth-fwlio." Mae Estyn yn gofyn am y polisi hwn, ac mae'n rhaid iddo gael ei adolygu gan y corff llywodraethu bob blwyddyn.

Dylid rhannu polisi effeithiol i'r adrannau canlynol:

- Cyflwyniad
 - Gwerthoedd a datganiad ethos.
 - Amcanion a chanlyniadau dymunol y polisi.
 - Person a enwir.
 - Cyd-destun.
- Ymgynghori.
- Atal - lleihau pa mor aml y mae'r bwlio'n digwydd.
- Adwaith - ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau a adroddwyd o fwlio.
- Datblygu ac adolygu.

Dylai polisi gwrth-fwlio gyfeirio at a chysylltu â pholisïau sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a lles, amddiffyn plant, diogelu, cyfle cyfartal a hawliau, ymddygiad a chefnogaeth a chyfranogiad rhieni neu ofalwr.

Dylid adolygu pob polisi yn flynyddol a dylid dilyn chwe cham allweddol i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn effeithiol -

Cam 1 - Gweithgor.

Cam 2 - Ymgynghoriad - pa mor effeithiol yw'r polisi cyfredol?

Cam 3 - Cryfderau a gwendidau polisi cyfredol trwy wybodaeth a gasglwyd yng Ngham 2.

Cam 4 - Gwneud newidiadau priodol i'r polisi.

Cam 5 - Tynnu'r cyfan at ei gilydd ac ymgynghori pellach os oes angen.

Cam 6 - Drafft Terfynol a thu hwnt

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau pellach ar bob cam i'w gweld yn www.denbighshireschools.com (Adnoddau Gwrth-fwlio).

Gweithdrefnau adrodd cyfredol

Mae pob ysgol yn Sir Ddinbych yn gyfrifol am gofnodi eu data eu hunain o achosion o fwlio ymhlith eu poblogaeth. Arfer gorau fyddai gwneud hyn wrth i bob achos ddigwydd ac mae'r system gofnodi SIMS yn caniatáu hyn. Yna, disgwylir i ysgolion ddwywaith y flwyddyn (Chwefror a Medi) i anfon y data hwn at yr awdurdod drwy'r daflen gofnodi SIMS. Yna, bydd yr holl ddata yn cael ei gasglu gan yr awdurdod gydag arolwg yn cael ei gynhyrchu bob dwy flynedd.

Canllawiau ar gasglu data a gweithdrefn adrodd ar gael yn www.denbighshireschools.com ([Adnoddau Gwrth-fwlio](#)). Mae'r categorïau lle mae'r digwyddiadau bwlio yn cael eu cofnodi yn caniatáu i wybodaeth gael ei chasglu ar y math o fwlio a'r dulliau a ddefnyddir i allu nodi tueddiadau ar draws y data. Mae categorïau hefyd yn cael eu cysylltu â'r nodweddion amddiffynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ymgynghoriad o'r strategaeth

Yn wreiddiol cyflawnwyd yr ymgynghori o amgylch datblygu'r strategaeth hon dros gyfnod o bedwar mis, gyda chyfranogiad amrediad eang o asiantaethau partner a phersonél ysgol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach o'r strategaeth hon yng Ngrŵp Iechyd a Lles Addysg Sir Ddinbych ym mis Hydref 2015.

Monitro'r strategaeth

Bydd amcanion y strategaeth hon yn parhau i gael eu monitro drwy -

- Rannu gwybodaeth ac adnoddau trwy wefan yr awdurdod.
- Darparu gwasanaethau i'r ysgol a gwerthuso defnydd gwasanaeth.
- Cofnodi achosion gan ysgolion ar SIMS ac adolygu a choladu'r data hwn ddwywaith y flwyddyn.
- Adolygiad blynyddol o'r strategaeth yn ei chyfanrwydd.
- Diwygio'r ddogfen yn ôl yr angen.

Bydd y strategaeth hon yn parhau i gael ei monitro a'i hadolygu drwy'r Grŵp Iechyd a Lles Addysg, gan alluogi gweithio aml-asiantaethol a hyrwyddo cysylltiadau â staff yr ysgol.